

Morwena Edwards  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cyngor Gwynedd  
Swyddfeydd y Cyngor  
Caernarfon  
LL55 1SH

Dyddiad: 04 Dachwedd 2021

Annwyl Gyfarwyddwr,

## **Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) - Archwiliad Sicrwydd 2021: Cyngor Gwynedd**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi canfyddiadau ein archwiliad sicrwydd a gynhaliwyd rhwng 18 Ionawr ac 22 Ionawr 2021. Prif pwrpas y archwiliad sicrwydd hwn oedd gweld pa mor dda y mae gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant.

### **Trosolwg**

Ym mis Mawrth 2020, gohiriodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ei rhaglen arferol mewn ymateb i bandemig COVID-19 er mwyn galluogi darparwyr ac awdurdodau lleol i ganolbwyntio'n llawn ar ymateb i'r amgylchiadau heriol. Ailddechreuodd rhaglen ddiwygiedig gydag awdurdodau lleol ym mis Medi er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch sut mae pobl yn cael eu diogelu a sut mae eu llesiant yn cael ei hyrwyddo yn ystod y pandemig. Pwrpas yr archwiliad sicrwydd hwn oedd adolygu pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant. Gwnaethom ystyried diogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, neu y gall fod angen iddynt eu defnyddio, diogelwch y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio a diogelwch a llesiant y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau hynny. Roedd ein prif lwybrau ymholi yn seiliedig ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac rydym wedi cofnodi ein barnau a'n canfyddiadau yn unol â'r rhain: Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Partneriaethau ac Integreiddio, Llesiant.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)  
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru  
Sarn Mynach  
Cyffordd Llandudno  
Conwy  
LL31 9RZ  
[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

☎ 0300 790 0126  
✉ [ciw@gov.wales](mailto:ciw@gov.wales)

Care Inspectorate Wales (CIW)  
Welsh Government Offices  
Sarn Mynach  
Llandudno Junction  
Conwy  
LL31 9RZ  
[www.careinspectorate.wales](http://www.careinspectorate.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## **Gwnaethom ganolbwyntio ar y canlynol:**

1. Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cyflawni ei swyddogaethau statudol o ran cadw pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yn ddiogel, a hyrwyddo eu llesiant, yn ystod y pandemig?
2. Beth mae'r awdurdod lleol yn ei wneud fel nad oes angen i blant dderbyn gofal; ac a yw plant yn dychwelyd adref i'w teuluoedd yn ddigon cyflym, lle mae'n ddiogel iddynt wneud hynny?
3. Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn darparu cymorth cynnar, gofal a chyfnodau pontio di-dor rhwng gwasanaethau i blant anabl a'u teuluoedd?

## **Crynodeb o'r canfyddiadau a blaenoriaethau ar gyfer gwella:**

**Pobl – llais a rheolaeth – Gwnaethom ofyn:** Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod lleisiau pobl, gofalwyr ac ymarferwyr yn cael eu clywed, eu bod yn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth, ac yn cynnal rheolaeth dros eu bywydau, wrth hefyd gydbwysu'r argymhellion a'r gofynion a wnaed gan lechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn cyfyngu ar ledaeniad COVID-19?

Gwelsom dystiolaeth gref fod yr awdurdod lleol yn cadw mewn cysylltiad â phobl yn ystod y pandemig i gynnig cymorth. Roedd y gwasanaethau i blant ac oedolion wedi cofnodi llawer o weithgarwch. Gwelsom enghreifftiau o bobl yn cael cynnig help ymarferol ac emosiynol a oedd yn cael ei werthfawrogi gan unigolion. Dangosodd yr ymarferwyr y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hyderus bod plant ac oedolion yn ddiogel. Roedd tystiolaeth o ymarferwyr yn cydweithio ac yn gweithio mewn partneriaeth â phobl er mwyn sicrhau bod eu barn a'u dymuniadau yn cael eu nodi. Mae angen ffocws ychwanegol i gadarnhau bod lleisiau pobl bob amser yn cael eu clywed yn llawn a'u bod yn gallu gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am y gofal a'r cymorth sydd eu hangen i gyflawni'r canlyniadau gorau posib. Nid yw'r awdurdod lleol wedi ymgorffori un model dewisol o ymarfer gwaith cymdeithasol. Fodd bynnag, mae hyfforddiant sgysrsiau cydweithredol yn cael ei gynnig o fewn gwasanaethau oedolion a phlant yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014).

Mewn ymateb i'n harolwg staff, mae'r mwyafrif helaeth o ymarferwyr mewn gwasanaethau oedolion yn dweud eu bod yn gallu ymdopi â'u llwythi achosion. Roeddent yn amlwg yn deall amgylchiadau'r bobl y maent yn gweithio gyda nhw a'u cymunedau yn dda. Roedd pobl yn cael gwybod am eu hawliau a'u hawliadau gan gynnwys eiriolaeth ac roedd y staff yn amlwg wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol o ansawdd uchel yng Ngwynedd. Roedd tystiolaeth o hyn yn yr ymatebion empathetig, caredig a gofalgar. Roedd rhai o'r asesiadau a welwyd yn canolbwyntio gormod ar angen o hyd ac roedd diffyg eglurder wrth gofnodi canlyniadau personol. Ar adegau roedd yn anodd dilyn penderfyniadau a deall y rhesymeg yn glir ar adegau gwneud penderfyniadau allweddol ym mywydau pobl, megis pan mae unigolyn yn symud i mewn i gartref gofal. Yn anaml iawn yr

oedd sesiynau goruchwyllo yn cael eu cofnodi yn ffeiliau gwasanaethau oedolion. Byddai gwneud hynny yn rhoi cyfle i reolwyr sicrhau bod canlyniadau y cytunwyd arnynt a phenderfyniadau perthnasol yn cael eu cyfleu'n glir. Mae'n galonogol gweld bod yr awdurdod lleol eisoes wedi nodi bod angen rhoi sylw i gofnodi ar System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn rhaglen waith gwasanaethau oedolion. Yn gryno, mae angen i reolwyr sicrhau bod lleisiau'r bobl yn cael eu clywed a bod y rhain yn cael eu cofnodi'n gyson.

O fewn gwasanaethau plant, dangosodd asesiadau a chynlluniau gofal drefniadau casglu gwybodaeth da ar y cyfan, gyda dadansoddiad o gryfderau a rhwystrau yn anelu at gefnogi gwaith cynllunio sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau y caiff dymuniadau ac anghenion pob plentyn eu nodi'n unigol, yn enwedig os oes grwpiau mawr o frodyr a chworydd. Yn ystod y pandemig, gwnaeth ymarferwyr gadw mewn cysylltiad â phlant, wyneb yn wyneb ac yn rhithwir, er mwyn sicrhau eu diogelwch. Gwelsom fod gweithwyr proffesiynol yn gwneud atgyfeiriadau amserol a phriodol at y gwasanaethau plant a oedd yn sbarduno dulliau amlddisgyblaethol hirsefydledig. Gwelsom enghreifftiau da o'r awdurdod lleol yn defnyddio modelau ymarfer arloesol, megis y prosiect pilot amddiffyn plant effeithiol, i alluogi teuluoedd ac ymarferwyr i gyfleu pryderon a nodau ymyrryd yn glir. Dangosodd canlyniadau ein harolwg staff fod hyn yn cael ei werthfawrogi gan ymarferwyr a roddodd nifer o enghreifftiau o fuddiannau'r dull hwn i blant a theuluoedd.

Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth yn newis iaith yr unigolyn. Gwelsom fod asesiadau a gofal parhaus yn cael eu darparu yn Gymraeg fel mater o drefn. Mae'r awdurdod lleol yn falch o wneud y Cynnig Rhagweithiol a sicrhau y caiff hawliau pobl eu diogelu. Hefyd, gwelsom y defnydd o gyfieithiadau i ieithoedd eraill i helpu pobl i gymryd rhan. Mewn rhai achosion, roedd y ffeiliau a welwyd yn cael eu cynnal mewn cymysgedd o Gymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff dogfennau eu darparu yn newis iaith yr unigolyn.

Mae gan Gyngor Gwynedd ddull gadarnhaol recriwtio a chadw staff heb ddefnyddio staff asiantaeth. Gwelsom dystiolaeth o fuddiannau'r sefydlogrwydd hwn i blant ac oedolion. Dywedodd y mwyafrif helaeth o ymarferwyr a ymatebodd i'n harolwg fod y gweithlu wedi cael ei gefnogi'n dda yn ystod y pandemig. Mae ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r ffaith bod rheolwyr a chymorth cyfoedion gan gydweithwyr ar gael yn hawdd, yn anffurfiol a thrwy sesiynau goruchwyllo ffurfiol. O fewn gwasanaethau plant, roedd penderfyniadau goruchwyllo yn cael eu cofnodi mewn ffeiliau gyda champau gweithredu clir a dadansoddiad da o risgiau yn amlwg. Soniodd ymarferwyr am gyfleoedd dysgu a datblygu cadarnhaol sy'n eu helpu i deimlo'n fwy hyderus yn eu rolau. Roedd hyn yn cynnwys pobl yn eu tair blynedd gyntaf o ymarfer, a fynegodd eu diolch am y cymorth a ddarparwyd a'r hyder y byddent yn aros gyda'r awdurdod lleol i gamu ymlaen yn eu gyrfa.

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn ffordd ddiogel yn flaenoriaeth. Mae gan uwch-reolwyr a swyddogion ddealltwriaeth dda o broffil plant sy'n derbyn gofal a gwybodaeth dda amdano, ac maent wedi ymrwymo'n gryf i'r agenda ataliol. Clywsom fod cymorth da ym maes rhianta corfforaethol ym mhob rhan o'r

cyngor. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu dros y 12 mis diwethaf, ond mae gan yr awdurdod lleol wybodaeth dda am y rhesymau dros hyn. Mae'n rhoi mesurau ar waith i ddiddymu gorchmynion gofal, gan gynnwys panel craffu trylwyr lle y caiff lleoliad pob plentyn ei herio a gwneir pob ymdrech i weithio gyda theuluoedd. Er enghraifft, clywsom am baru sgiliau ymarferwyr ag anghenion y teulu er mwyn gwella cydberthnasau ac ymgysylltu. Gwelsom enghreifftiau eraill o fentrau cadarnhaol i leihau nifer y plant mewn gofal yn ddiogel, gan gynnwys adnodd ychwanegol yn y tîm trothwy gofal, a swyddi penodol ar gyfer cefnogi rhieni maeth yn y gwasanaeth maethu.

**Atal – Gwnaethom ofyn:** I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn llwyddo i hybu prosesau atal a lleihau'r angen am fwy o gymorth neu gymorth ffurfiol gan asiantaethau statudol?

Mae uwch-reolwyr yn deall bod mynediad at drefniadau atal ac ymyrryd yn gynnar yn allweddol i gynnal llesiant a lliniaru'r galw ar wasanaethau statudol. Pwysleisiodd ymarferwyr wydnwch y cymunedau lleol a'r cymorth a gynigir ganddynt. Clywsom enghreifftiau cadarnhaol o brosiectau cymunedol arloesol i wella ansawdd bywyd pobl yn ystod y pandemig. Roedd y rhain yn cynnwys rhoi bocs Nadolig i bawb dros 70 oed mewn un pentref, a chynllun ffrindiau gohebol i gysylltu plant â phobl hŷn sy'n fuddiol i'r ddwy genhedlaeth. Clywsom hefyd am fanciau bwyd sydd ar agor i bawb mewn angen heb feini prawf, ac enghreifftiau o lawer o weithgareddau ar-lein i gysylltu pobl drwy ddiddordebau a rennir, megis gŵyl gyrfaoedd ar-lein.

Roedd yr ymatebion i'n harolwg staff yn adlewyrchu'n gryf y farn bod gwasanaethau ataliol yn gweithio'n dda ac yn cael eu gwerthfawrogi am leihau'r angen am gymorth statudol, ond byddai mwy o fuddsoddiad yn cael ei groesawu. O fewn gwasanaethau oedolion, gwelsom ymatebion amserol i geisiadau am fân gymhorthion neu addasiadau yn y cartref. Fodd bynnag, nid yw rhai amseroedd aros am gymorth therapi galwedigaethol, megis asesiadau ymolchi, yn cyflawni nodau Deddf 2014 ac mae'n rhaid i hyn wella. I liniaru hyn, mae gwaith cynllunio'r gweithlu yn mynd rhagddo i gynyddu nifer y therapyddion galwedigaethol sydd ar gael pan fydd pobl yn cysylltu â'r awdurdod lleol. Clywsom am fuddiannau'r pum pwynt gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n galluogi ymatebion lleol i anghenion. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod ganddo ddata digonol am waith gwasanaethau ataliol i fonitro eu heffeithiolrwydd ledled Gwynedd, a'i alluogi i gynllunio ar lefel leol ar gyfer anghenion yn y dyfodol.

Nod y strategaeth cefnogi teuluoedd yw cyfuno'r holl wasanaethau ataliol i blant a theuluoedd i gynnig gwasanaeth di-dor. Aeth ymarferwyr o'r gwasanaethau cymorth cynnar ati i gysylltu â theuluoedd i gynnig cymorth. Gwelsom enghreifftiau o blant a theuluoedd yn cael cymorth ymarferol cynnar, megis lle mewn meithrinfa a oedd yn helpu mam i ofalu am ei baban newydd. Roedd yr ymatebion i'n harolwg staff yn adlewyrchu'n gryf y farn bod gwasanaethau plant yn fodlon arloesi ac cyflwyno syniadau newydd i wella'n barhaus. Roedd tystiolaeth o hyn yn ystod y pandemig drwy hwb gwybodaeth i blant a theuluoedd a oedd yn darparu gwybodaeth i bobl ar-lein a dros y ffôn am faterion megis galaru ac iechyd meddwl, yn ogystal â chyfeirio pobl at gymorth amgen fel y bo angen. Clywsom am

gyfnodau pontio didrafferth rhwng timau cymorth cynnar a gwasanaethau plant, gyda rheolwyr yn cynyddu neu'n lleihau cymorth fel y bo angen mewn modd hyblyg.

**Partneriaethau ac Integreiddio - Gwnaethom ofyn:** I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn gallu sicrhau ei hun ei fod yn achub ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth mewn ffordd gadarnhaol, er mwyn gwneud y gorau o gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sicrhau y darperir gwasanaethau integredig a'u bod yn gynaliadwy?

Yn y rhan fwyaf o ffeiliau, gwelwyd tystiolaeth o ymarferwyr yn meithrin cydberthynas waith broffesiynol â phobl yn seiliedig ar gydweithredu a dealltwriaeth a rennir o'r hyn sy'n bwysig. Gwelsom waith partneriaeth da rhwng gweithwyr proffesiynol, teuluoedd a gofalwyr. Clywsom gan sampl fach o ofalwyr o fewn gwasanaethau oedolion am gefnogaeth ragorol gan yr awdurdod lleol, gydag enghreifftiau arloesol o focsys crefft yn cael eu dosbarthu ac yna weithgaredd crefft rhithwir ar y cyd er mwyn lleihau ynyswch.

Clywsom am enghreifftiau cadarnhaol o waith amlasiantaeth i reoli risgiau pobl â'r anghenion mwyaf cymhleth, a'u gweld ar waith. Ar lefel ymarfer o fewn gwasanaethau plant, mae'r Tim Emrallt wedi cael ei ddatblygu a'i ddarparu yn aml asiantaethol i hwyluso dealltwriaeth a datblygu ymarfer ym maes ymddygiad rhywiol problemus ac anaddas ymysg plant a phobl ifanc. Gwelsom enghreifftiau o rannu gwybodaeth yn amserol â'r heddlu, y gwasanaeth prawf a phartneriaid eraill lle roedd hyn yn ofynnol. Dywedodd rheolwyr a staff gwaith cymdeithasol wrthym am heriau cefnogi anghenion emosiynol plant a diffyg gwasanaethau iechyd meddwl. Mae'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd wedi'i chael hi'n anodd cysoni gwasanaethau, gyda Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn canolbwyntio'n bennaf ar anghenion plant sydd â salwch meddwl. I lawer o blant sy'n gweithio gyda'r gwasanaethau plant, nid yw'r diffiniad clinigol hwn yn gymwys, ac mae pryder nad oes gwasanaethau ar gael i rai plant sydd ag anghenion emosiynol cymhleth iawn. Nid yw'r mater hwn yn benodol i'r awdurdod lleol ac roedd uwch-reolwyr wrthi'n gweithio i ddatblygu cymorth amgen.

Nododd y rhan fwyaf o ddarparwyr a sampl fach o sefydliadau trydydd sector a ymatebodd i'n harolwg gydberthnasau gwaith a chymorth rhagorol yn ystod y pandemig. Gwnaethant ganmol yr awdurdod lleol am ei ddefnydd amserol o ffyrdd digidol newydd o weithio i sicrhau eu bod yn gallu cyfathrebu saith diwrnod yr wythnos. Clywsom am gyfarpar diogelu personol yn cael ei ddosbarthu mewn ffordd ragorol, blaenoriaethu diogelwch gweithwyr gofal, a'r awdurdod lleol yn eirioli ar ran unigolion er mwyn i asiantaethau eraill eu cefnogi. Clywsom sut oedd Tîm Cymorth Covid yn bwynt cyswllt i gefnogi a lleihau'r pwysau ar wasanaethau statudol. Yn wasanaethau oedolion gwelsom yr awdurdod lleol yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i sicrhau bod pobl yn dychwelyd adref o'r ysbyty cyn gynted â phosib.

Clywsom am Fwrdd Rheoli Gwasanaethau i blant anabl sy'n cwmpasu dwy ardal awdurdod lleol ac yn darparu mwy o gyfleoedd i gydweithio. Er enghraifft, mae wedi galluogi recriwtio 20 gwirfoddolwr i gynnig gofal ysbaid i deuluoedd ac i helpu gyda diwrnodau allan i'r teulu, cefnogi brodyr a chwiorydd a theithiau dydd. Mae nifer o becynnau cymorth wedi'u

comisiynu ar y cyd i blant anabl rhwng y bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol, gyda phartneriaid yn cydweithio'n agos i gefnogi plant a'u teuluoedd yn y ffordd orau. Nododd yr ymatebion i'n harolwg staff y dylid blaenoriaethu gwell cydweithio â'r bwrdd iechyd er mwyn sicrhau y caiff anghenion pobl eu diwallu'n briodol, yn enwedig lle y mae angen trefniadau ariannu ar y cyd. Clywsom fod cael tai addas yn gallu bod yn heriol ac mae'r awdurdod lleol yn parhau i fynd i'r afael â hyn gyda phartneriaid.

I blant a oedd mewn gofal, gwelsom fod yr holl adolygiadau ac ymweliadau statudol yn cael eu cynnal mewn modd amserol. Roedd yr adolygiadau yn adlewyrchu safbwynt y plant, y gofalywyr a'r rhieni gyda naratifau da yn ymwneud â llesiant. Gwelsom enghreifftiau o blant yn cael eu cynnwys ac yn cymryd rhan yn eu cynlluniau. Roedd cynlluniau hefyd yn cael eu rhannu â Swyddogion Adolygu Annibynnol a phartneriaid eraill, gan gynnwys iechyd ac addysg, mewn modd amserol i sicrhau dull cydlynus o ddarparu gofal. Gwnaethom arsylwi'n gadarnhaol waith cynllunio da ar gyfer cyswllt rhwng plant a theuluoedd, gyda chynlluniau ar gyfer cyswllt pan fydd cyfyngiadau'r pandemig yn cael eu llacio. Gwelsom fod ymarferwyr wedi bod yn cysylltu â phlant a gofalywyr yn aml i gynnig help a chefnogaeth. Nododd ofalwyr maeth y gwnaethom gysylltu â nhw gymorth rhagorol gan y tîm maethu. Er mwyn cefnogi lleoliadau sefydlog, mae adnodd ychwanegol pellach wedi cael ei nodi yn y tîm maethu. Clywsom am waith cynllunio ar gyfer trefniadau Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig (GGA); mae'r awdurdod lleol wedi bod yn gweithio ar bolisi wedi'i ddiweddarau ac mae'n bwysig y caiff ei gyflwyno ar draws gwasanaethau plant cyn gynted â phosibl er mwyn ehangu opsiynau parhaol i blant.

Clywsom gan grŵp o bobl ifanc a oedd wedi gadael gofal am y gefnogaeth dda a gawsant gan y tîm 16+ a'u cynorthwyrwyr personol. Gwnaethant ddisgrifio'r ffordd roeddent wedi cael cymorth i ddod o hyd i waith a rhywle addas i fyw. Gwelsom dystiolaeth bod sgysiau 'Pan Fydda i'n Barod' yn cael eu cynnal ond clywsom y gallai'r rhain fod wedi dechrau'n gynt mewn nifer bach o achosion. Roedd pobl ifanc mewn gofal yn cael eu cefnogi i feithrin sgiliau byw'n annibynnol, ond clywsom y gall diffyg llety addas fod yn rhwystr. Yn gryno, o'r achosion a welsom, roedd plant yn cael budd o leoliadau sefydlog sy'n diwallu eu hanghenion gyda chanlyniadau hirdymor da.

**Llesiant - Gwnaethom ofyn:** I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn hyrwyddo llesiant, gan sicrhau bod pobl yn aros yn ddiogel ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol sydd o bwys iddynt?

Mae'r gwasanaethau i oedolion a phlant yn cael budd o gymorth corfforaethol da, a thîm uwch-reolwyr sefydledig sy'n ceisio ymdrin â gofal a chymorth o safbwynt gydol oes. Dangosodd yr ymarferwyr y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth o weledigaeth strategol yr awdurdod lleol fel yr amlinellir yn Ffordd Gwynedd.

O fewn gwasanaethau oedolion, roedd y rhan fwyaf o'r ffeiliau a welsom yn cofnodi sgysiau am yr hyn sy'n bwysig a oedd yn adlewyrchu amgylchiadau'r bobl. Roedd y cynlluniau gwell yn cynnwys y cryfderau sydd gan bobl a sut y gall y rhain gyfrannu at ganlyniadau y maent am eu cyflawni. Roedd diffyg ffocws ar yr hyn yr oedd angen iddo

ddigwydd er mwyn i'r bobl gyflawni'r hyn roeddent am ei gyflawni mewn rhai cynlluniau; mae hyn yn golygu y gall gwaith cynllunio gofal a chymorth gamgyfleu'r hyn sy'n bwysig i bobl. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff cryfderau'r unigolyn eu hadlewyrchu mewn modd ystyrlon yn gyson.

Clywsom am restr aros ar gyfer adolygiadau ffurfiol mewn gwasanaethau oedolion, ond gwelsom dystiolaeth o ymarferwyr yn cadw mewn cysylltiad â phobl ac yn diwygio eu dull adolygu fel y bo angen. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol wella amseroldeb adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth am ei fod yn bosibl nad yw rhai pobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Gwelsom restrau aros ar gyfer cymorth cartref a mynegodd yr ymarferwyr y gwnaethom siarad â nhw bryderon am hyn. Fodd bynnag, gwelsom ymatebion hyblyg a chyflym lle roedd risg uniongyrchol i annibyniaeth unigolyn.

Mynegodd ymarferwyr adborth cadarnhaol am ddiogelu oedolion ac roedd yr hyder hwn hefyd yn cael ei adlewyrchu mewn ymatebion i'n harolwg darparwyr. Yn y ffeiliau a welsom, defnyddiwyd y broses ddiogelu i ategu sgysiau ag oedolion mewn perygl, ond weithiau nid oedd yn bosibl dilyn y broses gwneud penderfyniadau. Dylid cofnodi'r rhesymeg dros benderfyniadau ym maes diogelu yn glir bob amser, gan gynnwys penderfyniadau i beidio â chymryd camau gweithredu pellach. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff y gweithdrefnau diogelu newydd eu rhoi ar waith gyda dadansoddiad o dystiolaeth a phenderfyniadau yn cael eu cofnodi'n drylwyr. Dylai hyn gynnwys ystyriaeth o alluedd meddyliol a sut y dylid mynd i'r afael â materion diogelu ehangach a gan bwy.

I blant anabl a'u teuluoedd, mae Tîm Aml-ddisgyblaethol Derwen wedi cysylltu â phobl yn aml yn ystod y pandemig i gynnig cymorth. Mae hyn wedi cynnwys cymorth ymarferol gyda chymhorthion ac addasiadau, cymorth emosiynol gyda galwadau ffôn gan seicolegydd a hefyd amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer plant yn ystod y gwyliau haf. Roedd adolygiadau yn cael eu cynnal o fewn amserlenni statudol ac roedd ymarferwyr yn ceisio mynd i'r afael â'r rhain yn rhagweithiol wrth i anghenion godi, er enghraifft, trefnu hyfforddiant ymyrraeth gorfforol i rieni sy'n cael trafferth gydag ymddygiad eu plentyn. Mae nifer o wasanaeth cymorth dydd wedi dod i ben yn ystod y pandemig, ond clywsom am ddefnydd arloesol o'r staff i gefnogi teuluoedd ar yr adeg hon. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pob plentyn yn weladwy yn ei ffeil achos ei hun ac yn parhau i fod yn ffocws ei gynllun gofal. Tynnodd ymatebion gan rieni i'n harolwg sylw at ddiffyg cyffredinol gofal plant addas ar gyfer plant anabl a oedd hefyd yn cael ei adleisio gan ymarferwyr.

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod angen iddo gynnig amrywiaeth eang o gymorth a dewisiadau i deuluoedd. Mae defnydd cymharol isel o daliadau uniongyrchol oherwydd heriau recriwtio cynorthwywyr personol ac mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod hyn yn opsiwn i bobl. Clywsom am ddarpariaeth ragorol gan Hafan y Sêr ac rydym yn cydnabod faint mae teuluoedd yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth cymorth hwn. Mae'r awdurdod lleol wedi gwneud pob ymdrech i ailagor y cyfleuster hwn cyn gynted â phosibl er mwyn dechrau darparu'r gwasanaeth eto, ond ar gyfradd is oherwydd gweithdrefnau diogelwch y pandemig.

## Dull:

- gwnaethom fwrw golwg dros y ddogfennaeth a ddarparwyd cyn ein hymweliad
- gwnaethom siarad â gofalwyr a phobl a oedd yn derbyn, neu wedi derbyn, gofal a chymorth
- gwnaethom fwrw golwg dros 40 o ffeiliau
- gwnaethom gynnal 10 o gyfweiliadau olrhain achosion â staff
- gwnaethom gynnal arolwg i weithwyr gwasanaethau cymdeithasol
- gwnaethom gynnal arolwg i ddarparwyr
- gwnaethom gynnal arolwg i sefydliadau trydydd sector
- gwnaethom gynnal arolwg i rieni a gofalwyr plant anabl
- gwnaethom gynnal arolwg i bobl a oedd â phrofiad o ofal a chymorth

## Y Camau Nesaf

Rydym wedi nodi cryfderau a meysydd i'w gwella fel blaenoriaeth, a byddwn yn adolygu cynnydd y meysydd hyn drwy ein cyfarfodydd adolygu gwerthuso perfformiad â'r penaethiaid gwasanaeth a'r cyfarwyddwr. Rydym yn disgwyl y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau gwella'r awdurdod lleol. Hoffem ddiolch i bawb a wnaeth ein helpu i gynnal y archwiliad sicrwydd hwn ac i'r bobl a'r staff hynny a siaradodd â ni.

Gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd yn <https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol>

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**  
Pennaeth Arolygu Awdurdod Lleol  
**Arolygiaeth Gofal Cymru**